



# Arolygiaeth Prawf EM

## **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr: Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol 2020**

### **Cyflwyniad**

1. Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi gan yr Arolygydd sydd â chyfrifoldeb am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 01 Ionawr 2020 i 31 Rhagfyr 2020.
2. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol troseddau ieuencid a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gydag oedolion a phlant sydd wedi troseddu. Rydym yn derbyn cyllideb ddirprwyedig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef £6.36m ar gyfer 2020/2021.
3. Mae'r sefydliad dan arweiniad Prif Arolygydd Prawf EM wedi ymrwymo i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y cynllun iaith Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y byddwn, wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, fel yr amlinellir yn ein cynllun iaith Gymraeg cymeradwy.
4. Yn ystod 2020, gadawodd ein Harolygydd cyflogedig a fedrai siarad Cymraeg ein sefydliad. Mae'r Arolygiaeth bellach yn cyflogi un aelod o staff llawn amser sy'n siarad Cymraeg, sef y Pennaeth thematig ac arolygu ar y cyd.

### **Recriwtio**

5. Rydym yn parhau i geisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. Rydym wedi diweddarau'n hysbysebion swyddi i'w gwneud yn fwy penodol ein bod yn croesawu'n gynnes geisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â chynnig cyfle i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg drafod y swydd yn Gymraeg. Rydym hefyd yn cynnig darparu'r hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad yn Gymraeg a pharhau i ddefnyddio ein perthynas sefydledig â rhanddeiliad yn y sector cyfiawnder yng Nghymru er mwyn hybu ymwybyddiaeth o swyddi gwag.
6. Ochr yn ochr â'n hymdrechion i recriwtio siaradwyr Cymraeg, rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru i recriwtio a hyfforddi 'aseswyr lleol' sy'n siarad Cymraeg. Dylai hyn ein galluogi i ddefnyddio aseswyr sy'n siarad Cymraeg wrth gynnal ein harolygiadau craidd a thematig yng Nghymru.

## **Cynllunio a darparu gwasanaethau**

7. Rydym yn cynllunio ac yn gweithredu arolygiadau yng Nghymru o waith troseddau oedolion a throseddau ieuenctid, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS). Wrth wneud hynny, rydym yn hyrwyddo ein cynllun iaith Gymraeg ac yn yr un modd yn ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.
8. Unwaith y byddwn wedi recriwtio a hyfforddi arolygwyr neu aseswyr lleol sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn darparu o leiaf un Arolygydd sy'n medru siarad Cymraeg ar ein rhaglenni arolygu craidd ieuenctid ac oedolion yng Nghymru. Rydym wedi cysylltu â'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a gofyn iddynt roi gwybod i ni ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un o'u defnyddwyr gwasanaeth, staff neu reolwyr strategol gael eu cyfweld yn Gymraeg.
9. Mae ein harolygiadau thematig yn edrych ar feysydd penodol o waith troseddu ieuenctid ac oedolion ar draws Cymru a Lloegr. Pan fydd hyn yn cynnwys archwilio ardal yng Nghymru, rydym hefyd yn gofyn ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un gael cyfweiliad yn Gymraeg er mwyn gallu darparu Arolygydd sy'n siarad Cymraeg.
10. Mae ein harolygiad craidd o waith troseddu ieuenctid ac oedolion yng Nghymru yn cynnwys canolbwyntio ar sut mae'r sefydliad sy'n cael ei archwilio wedi adnabod ac ymateb i'r dewis i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Gymraeg. Mae'r trafodaethau gyda staff hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod hawliau defnyddiwr gwasanaeth i gael mynediad at wasanaethau trwy'r iaith Gymraeg.
11. Gellir cyflwyno gwybodaeth y gofynnir amdani gan Arolygiaeth Prawf EM cyn yr arolygiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed pob cyflwyniad o'r fath yn Saesneg.

## **Arolygiadau a ddarperir yng Nghymru**

12. Ataliwyd arolygiadau wyneb yn wyneb ym mis Mawrth 2020 yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac ers hynny rydym wedi parhau i arolygu gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid o bell gan ddefnyddio technoleg fideo a thele-gynadledda.
13. Cwblhawyd un arolygiad o wasanaethau troseddu ieuenctid yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd. Darparwyd copïau o'r llythyr cyhoeddi, taflen wybodaeth arolwg testun pobl ifanc a holiadur dedfrydu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhaliwyd un cyfweiliad yn yr Arolygiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
14. Rydym wedi cwblhau tri arolygiad thematig sydd wedi cynnwys ardaloedd yng Nghymru sef 'Diwylliant ac arfer adalw prawf', 'gwaith y Gwasanaeth Prawf Ieuenctid yn ystod pandemig Covid-19, a threfniadau 'Model Cyflawni Eithriadol mewn gwasanaethau prawf mewn ymateb i bandemig Covid-19. Ni chynhaliwyd yr un cyfweiliad yn y Gymraeg yn yr arolygiadau thematig.

15. Buom yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth prawf yng Nghymru i brofi a threalu ein methodoleg arolygu newydd. Cynhaliwyd tri ar ddeg o gyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwaith hwn.
16. Cyfanswm nifer y cyfweiliadau arolygu a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020 oedd 14, sy'n cynrychioli cynnydd ar y flwyddyn 2019, pan gynhaliwyd 10 cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Delwedd gyhoeddus y Sefydliad**

17. Rydym yn defnyddio logo Cymraeg ar gyfer pob adroddiad a chyfathrebu yn Gymraeg.
18. Mae ein bathodynnau enwau mewn fformat dwyieithog, yn ogystal â cherdyn busnes yr uwchreolwr sy'n siarad Cymraeg a'r Arolygydd sydd â'r prif gyfrifoldeb am gynllun iaith Gymraeg Prawf AEM. Felly, mae enwau arolygwyr sy'n siarad Cymraeg wedi cael eu nodi'n glir ar eu bathodynnau adnabod.
19. Mae adroddiadau ar arolygiadau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi pum adroddiad thematig perthnasol i Gymru a Lloegr, adroddiadau ar wasanaeth troseddau ieuencid yng Nghymru ac arolygiad peilot ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghasnewydd, dan arweiniad CIW. Roedd adroddiadau yn Gymraeg ar gael ar yr un amser â'r adroddiadau Saesneg mewn perthynas â'r arolygiadau hyn. Mae adroddiadau a gyhoeddir yn cael eu hyrwyddo gyda theitl dwyieithog ar twitter.
20. Yn ein harolygiad o'r gwasanaeth troseddau ieuencid gwelsom nad oedd trefniadau i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigon da. Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod lleol ddatblygu strategaethau effeithiol i annog plant sy'n siarad Cymraeg i geisio mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.
21. Yn ein harolygiad peilot ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant, canfuom fod y dull aml-asiantaeth o gefnogi a diogelu disgyblion sy'n agored i niwed ac sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn adweithiol a heb fod yn ddigon strategol.
22. Cyhoeddwyd ein hadroddiadau Blynyddol ar arolygiadau o wasanaethau troseddau ieuencid a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Cyfathrebu ehangach**

23. Mae Arolygiaeth Prawf AEM wedi parhau i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu cymeradwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi rhoi rhestr o dermau i'n darparwr cyfieithu i gynorthwyo cysondeb a byddwn yn parhau i fonitro ansawdd y gwasanaeth hwn.
24. Cyfeirir ceisiadau am gyfweiliadau cyfryngau yn y Gymraeg at ein huwch reolwr sy'n siarad Cymraeg. Cynhaliwyd cyfweiliadau radio iaith Gymraeg mewn perthynas â'n hadroddiad ar y swyddogaethau canolog sy'n cefnogi'r Gwasanaeth Prawf ac ar gwasanaeth troseddau ieuencid Caerdydd, yn ystod y cyfnod adrodd.

25. Nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau na gohebiaeth i'n swyddfeydd ym Manceinion na Llundain trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion o ran ein cynllun iaith Gymraeg.
26. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru trwy gyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder a diogelwch cymunedol. Rydym hefyd wedi cadw mewn cysylltiad gydag Arolygiaethau partner, gan gynnwys cysylltu i hyrwyddo datblygiad o drefniadau thematig ar y cyd ar gyfer Cymru, a diweddarau ein Memorandwm o Ddealltwriaeth ar y ffordd rydym yn gweithio gydag AGIC.
27. Mae ein dull rhagweithiol o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid yn cynnwys ymgysylltu parhaus gydag arweinwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Rydym yn parhau i adnabod cyfleoedd i ddeall trefniadaeth ddatganoledig yn well ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, fel y maent yn berthnasol i'n rôl wrth arolygu gwasanaethau prawf a throeddau ieuencid.
28. Rydym wedi ymgynghori ar ein dull newydd o ymdrin â'r gwasanaeth prawf ac arolygu ieuencid a byddwn yn ceisio sicrhau bod ein fframwaith a'n rhaglen arolygu yn parhau i fodloni gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg.

### **Hyfforddiant a datblygiad Staff**

29. Darparwyd hyfforddiant penodol i staff arolygu am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac arolygu yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fel rhan o'u cynefino, mae pob aelod newydd o staff yn cael trosolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n ymgorffori ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiad o ran arolygu yng Nghymru.

### **Effaith Covid-19**

30. Fel yr adroddwyd yn ein holiadur astudiaeth thematig, nid yw Covid-19 yn cael unrhyw effaith ar ein gallu i ddarparu o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ein rhaglen arolygu craidd yng Nghymru.

### **Trefniadau i'r dyfodol**

31. Bydd Tony Kirk, Arolygydd Prawf EM yn parhau i fod yn bennaf gyfrifol am y cynllun iaith Gymraeg ar ran y Prif Arolygydd Prawf EM.



**Tony Kirk**

Arolygydd Prawf EM

Ar ran

**Justin Russell**

Prif Arolygydd Prawf EM